# NEGES Y DDRAIG DRAGONSPEECH

***THE NEWSLETTER OF NPC WALES***
***CYLCHLYTHYR CPC CYMRU***

***Rhifyn 10 Gaeaf Issue 10 Winter 2023/24***

***Adolygiad o 2023 a beth sydd i ddod yn 2024.***

## Dychwelodd y CPC i Blackpool

Galwodd Confensiwn Blynyddol 2023 y CPC ar bobl ifanc a phobl hŷn i gydweithio fel bod pawb yn gallu cael ansawdd bywyd teilwng wrth iddynt heneiddio. Cynhaliodd sesiwn ar rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn, hefyd.

Cefnogodd CPC Cymru yr ymgyrch i gael Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer pobl hŷn a heneiddio yn Lloegr. Fe'i cefnogwyd gan y CPC, Independent Age, y Ganolfan ar gyfer Heneiddio'n Well, Age UK, a mwy na 70 o sefydliadau.

Roedd ein Cadeirydd, Dereck Roberts, wedi lobïo'r Senedd gyda'r CPC ac Independent Age i gefnogi'r ymgyrch.

Siaradodd Llywydd y CPC, Rosie MacGregor, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Helena Herklots, a'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd George Foulkes, yng Nghonfensiwn 2022 y CPC a ddechreuodd yr ymgyrch honno.

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.**

Daw tymor Helena Herklots fel Comisiynydd presennol Cymru i ben yn 2024. Mae gan Lywodraeth Cymru broses i **benodi Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf Cymru** a fydd yn gwasanaethu am gyfnod o saith mlynedd. Bydd hynny'n digwydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024.

**Bydd CPC Cymru yn ymwneud â'r broses honno.**
Mae'r Cadeirydd, Dereck Roberts, a'r Ysgrifennydd, Louisa St Bartholomew-Brown Morgan, wedi cael eu penodi, gan Lywodraeth Cymru, i'r **Panel Cyfweld Pobl Hŷn.** Bydd y panel yn argymell ymgeiswyr i'w penodi'n Gomisiynydd Pobl Hŷn newydd Cymru.

Yna, cânt eu cyfweld gan banel hollbleidiol y Senedd a fydd yn argymell rhywun i'w benodi.

**Bydd y penderfyniad terfynol a'r gymeradwyaeth ffurfiol yn cael eu gwneud gan y Prif Weinidog – Mark Drakeford neu ei olynydd.**

**Pensiynau a Threth**
Ie, roedd Ymgyrch y CPC i

gynnal Clo Triphlyg Pensiwn y Wladwriaeth yn llwyddiannus.

O 8 Ebrill 2024, bydd pensiwn llawn sylfaenol y wladwriaeth yn codi £13.30 yr wythnos yn unol ag enillion cyfartalog i £169.50. Bydd pensiwn llawn newydd y wladwriaeth yn codi £17.35 yr wythnos i £221.20.

**Ond nid oedd y llywodraeth wedi cynyddu'r trothwyon treth yn unol â chwyddiant.** Bydd llawer o bobl hŷn yn talu treth incwm bellach gan fod eu henillion yn fwy na'r trothwy treth £12,750.

**Dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y rhagwelir y bydd safonau byw yn y Deyrnas Unedig 3½ y cant yn is yn 2024-25 na chyn y pandemig.**

Mae dyfodol Pensiwn y Wladwriaeth a'r oedran pan fyddwch yn gymwys i'w dderbyn yn faterion pwysig o hyd ac maen nhw'n cael eu defnyddio gan rai i geisio creu gwrthdaro rhwng y cenedlaethau.

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (clwb gwledydd cyfoethog) yn un o nifer o "felinau trafod" sy'n annog llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiwygio'r clo triphlyg 'costus' er mwyn "gwella" sefyllfa ariannol y Deyrnas Unedig.
**Gwella i bwy, tybed?**

***Felly, bydd CPC Cymru yn parhau i ymgyrchu i gael Pensiwn Gwladwriaeth teilwng ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.***

***Bydd CPC Cymru yn ymgyrchu yn erbyn unrhyw gynnydd yn Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol. Mae 68 yn rhy hwyr!***

**Dylai pensiwn sylfaenol y wladwriaeth gael ei osod ar 70% o'r cyflog byw (y gyfradd y tu allan i Lundain) ac yn uwch na'r lefel dlodi swyddogol. Ar hyn o bryd, y cyflog byw yw £10.42 yr awr yn 2023-24. Yn seiliedig ar 70% o hwnnw ac wythnos 35 awr, mae hynny'n gyfystyr â £255 yr wythnos, sef £13,275 y flwyddyn.**
Fe ddylai hyn gael ei dalu i bawb, ni waeth am eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

**Bob blwyddyn, dylai pensiwn y wladwriaeth (sylfaenol, ail a Chynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion (SERPS)) godi yn unol â'r gorau o blith enillion, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, y Mynegai**

**Prisiau Manwerthu neu 2.5%.**

**Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.**
Rydyn ni bellach wedi cael dau adroddiad arbenigol ar sut i drefnu Gwasanaethau Iechyd a Gofal yma yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2018:
**Talu am Ofal Cymdeithasol**
Adroddiad annibynnol gan yr Athro Gerald Holtham a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2023, cawsom adroddiad gan banel arbenigol arall:
**Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru: Cynllun Gweithredu Cychwynnol**
Mae CPC Cymru wedi bod yn ymwneud â'r broses o gyflawni hynny trwy ein cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru, ond gwnaethom hefyd ofyn i siaradwyr allweddol ddod i'n cyfarfod Cyngor Llawn i sôn am faint o gynnydd a wnaed.

Gofynnom i Mark Turner o Unsain a oedd yn aelod o'r panel arbenigol. Adroddodd fod y system ofal mewn argyfwng. Yn anffodus, mae llywodraethau wedi bod yn anwybyddu'r sefyllfa ers tro.

Mae'r diffyg capasiti ym maes gofal yn cael effaith ar y GIG. Gan fod y trothwy i fod yn gymwys ar gyfer gofal cartref wedi cael ei godi mor uchel, dim ond pobl ag anghenion difrifol sy'n gallu ei dderbyn.

Mae gofal yn fwyaf tebygol o gael ei ddarparu gan y sector preifat, gyda gweithwyr gofal gwahanol yn mynychu ar adegau gwahanol o'r dydd, a hynny'n aml ar adegau anghyfleus. Nid y gweithwyr sydd ar fai. Yn y rhan fwyaf o achosion, maen nhw'n gweithio yn eu hamser eu hunain i roi'r urddas a'r dyngarwch i'w cleientiaid nad yw'r farchnad yn ei gydnabod.

Methodd y farchnad yn llwyr yn ystod y pandemig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion hynny – mae gweinidogion yn hyrwyddo gwasanaeth gofal cenedlaethol, a ddarperir yn gyhoeddus ac sydd am ddim pan fydd ei angen. Mae angen amdano, ond bydd yn anodd iawn ei gyflawni gyda darpariaeth gan y sector preifat oherwydd bod cysylltiad annatod rhwng economeg gofal cymdeithasol ac economeg gwerth cyfalaf.

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb ar gyfer 2024 yn ddiweddar, ac mae wedi'i dominyddu gan anghenion GIG Cymru.

A fydd gofal yn cael ei "wthio o'r neilltu eto"?

***Bydd CPC Cymru yn ymgyrchu i gadw gofal am ddim pan***

## *fydd ei angen ar frig yr agenda!*

Yn 2024, bydd 3 blynedd wedi mynd heibio ers i ni ddechrau ein Hymgyrch Cysylltiadau i Bawb.

Mae newidiadau'n digwydd yn gyflymach gan fod Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn dechrau cael ei ddefnyddio'n gyffredin. I bobl hŷn, mae hynny'n golygu bod mynediad at wasanaethau, newyddion, gwybodaeth deithio, ac ati yn dod yn fwy dibynnol ar allu defnyddio'r rhyngrwyd, a bod â ffôn clyfar neu fodd arall o ddefnyddio band eang.

Mae Gweithgor Digidol CPC yn cael ei gadeirio gan Jenny Sims, sy'n aelod o Bwyllgor CPC Cymru. Maen nhw'n cyhoeddi cylchlythyr y gallwch gael ato ar-lein trwy: **npcuk connections-for-all-8**

Cyflwynodd Gweithgor Digidol y CPC dystiolaeth i Lywodraeth San Steffan ar fater allgáu digidol gydag Elusennau a Sefydliadau eraill.

**Ym mis Ebrill 2023, cadarnhaodd y Rheoleiddiwr Cyfathrebu (Ofcom) fod bron un o bob tri o bobl yn cael trafferth fforddio gwasanaethau rhyngrwyd.**

Mae Llywodraeth San Steffan yn gobeithio perswadio darparwyr y rhyngrwyd i gynnig "tariffau cymdeithasol" i leihau costau, ond mae'r rhain hefyd yn rhy ddrud ac yn dibynnu ar barodrwydd darparwyr i'w cynnig.

**Mynediad at Fand Eang fel Hawl Ddynol.**
Yn hwyr yn 2021, cyhoeddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ganllawiau statudol i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru: **Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol.** Bu CPC Cymru yn ymwneud â datblygu'r canllawiau hynny.

Wrth adolygu cynnydd yn 2022 a 2023, roedd y Comisiynydd yn glir iawn: **Mae'r hawl i gael mynediad at wybodaeth yn elfen allweddol o'r hawl ehangach i ryddid mynegiant a chaiff ei diogelu gan sawl offeryn hawliau dynol, gan gynnwys Cyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Deddf Hawliau Dynol 1998.**

Mae'r Canllawiau'n datgan bod rhaid i unrhyw symudiad i wasanaethau digidol gael ei gyflwyno law yn llaw â mesurau i **sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu** a'u bod yn gallu cael at y wybodaeth a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen trwy sianeli all-lein neu, os ydynt eisiau, eu bod

yn cael eu cefnogi i ddysgu sgiliau i allu mynd ar-lein. Mae hynny wrth wraidd Ymgyrch Cysylltiadau i Bawb CPC Cymru. **Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yng Nghymru ac mae mynediad a chymorth ar gael yn eang bellach ar-lein trwy: llyw.cymru/sut-mae-helpu-rhywun-rydych-yn-ei-adnabod-i-fynd-ar-lein**

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi galw am fynediad cyffredinol at y rhyngrwyd erbyn 2030. Mae cefnogaeth ryngwladol gynyddol i ymagwedd o'r fath.

**Mae'r CPC yn cefnogi galwadau i fynediad cyffredinol at y rhyngrwyd gael ei gydnabod fel hawl ddynol.**

Oherwydd yr argyfwng costau byw, mae tua 1 filiwn o bobl wedi canslo eu tanysgrifiadau band eang eleni. Felly, mae'r CPC yn mynd i ddechrau ymgyrch newydd:

**Pecyn mynediad at y rhyngrwyd am ddim i bensiynwyr.**

- **Bydd CPC Cymru yn cefnogi'r ymgyrch honno, felly cadwch lygad am ddigwyddiadau a newyddion yn y dyfodol.**

## Mynediad at Arian Parod

Mae gwasanaethau bancio'n cael eu tynnu'n ôl o gymunedau, hefyd. Mae arian parod yn parhau i fod yn arbennig o bwysig i ddefnyddwyr â nodweddion agored i niwed a busnesau bach.
Cafodd CPC Cymru gyfarfod da iawn â Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, y mae ei briff yn cynnwys Allgáu Digidol a mynediad at arian parod. Cysylltodd â **LINK, y cyflenwr peiriannau arian**, i drafod materion a godwyd ynglŷn â mynediad at arian parod.

Cwmni budd cyhoeddus nid-er-elw yw LINK. Mae'n cynnal y **rhwydwaith peiriannau ATM di-dâl a bydd yn gwarantu bod mynediad am ddim at arian parod ar gael trwy ATM di-dâl neu Swyddfa Bost o fewn 1km o unrhyw stryd fawr sydd ag o leiaf bum manwerthwr perthnasol sy'n derbyn arian parod.** Bydd CPC Cymru yn cadw llygad ar hynny trwy'r ymateb gan LINK.

Mae'r **Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)** yn cynnig cyfundrefn reoleiddiol newydd hefyd, a fyddai'n mynnu bod banciau a chymdeithasau adeiladu'n asesu a llenwi bylchau o ran darparu mynediad at arian parod sy'n effeithio'n sylweddol ar ddefnyddwyr a busnesau.

**Mae angen i'r FCA gael sylwadau erbyn 8 Chwefror**

**2024.**
**Ar-lein: Ffurflen ymateb CP23/29 yr FCA**

Neu yn ysgrifenedig at:
Retail Banking
Financial Conduct Authority
12 Endeavour Square London
E20 1JN
Rhif ffôn:
020 7066 1000
E-bost:**cp23-29@fca.org.uk**

# Sgamiau a thwyll

Ydych chi'n pryderu am sgamiau? Gall Age Cymru eich helpu i adnabod ac osgoi'r sgamiau diweddaraf ar-lein trwy: **Sgamiau a Thwyll Age Cymru**

**Gyda phwy alla' i siarad os ydw i wedi cael fy sgamio?**

**Yr heddlu:** Os ydych yn teimlo dan fygythiad neu os ydych mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch 999. Os nad yw'n argyfwng, ffoniwch 101.

**Eich banc:** Os ydych wedi sylwi ar unrhyw beth anarferol yn ymwneud â'ch cyfrif banc, ffoniwch y rhif canolog 159 neu'r rhif ffôn ar gefn eich cerdyn banc.

## TRAFNIDIAETH

Fel rydyn ni i gyd yn gwybod, mae gwasanaethau bws wedi cael eu lleihau'n sylweddol yng Nghymru (a Lloegr). Mae llawer o'n haelodau wedi mynegi pryderon ynglŷn â gwasanaethau yn eu hardal nhw.

**Rydyn ni'n dal i aros am y Bil Bysiau yng Nghymru. A fydd y Bil Bysiau newydd yn datrys y broblem?**

Mae Senedd Cymru newydd gyhoeddi (Rhagfyr 2023) Papur Ymchwil y Senedd: **Gwasanaethau bws ar system cynnal bywyd: a all masnachfreinio sicrhau canlyniadau i Gymru?**

Y syniad ar gyfer y Bil Bysiau newydd oedd cynnig:

1) Masnachfreinio bysiau ledled Cymru.
2) Caniatáu i awdurdodau lleol sefydlu cwmnïau bysiau trefol newydd.
3) Llacio cyfyngiadau ar gwmnïau bysiau trefol presennol; a gwella gwybodaeth i deithwyr a systemau tocynnau.
4) Cynnig rhoi rheolaeth i'r sector cyhoeddus trwy gynllun gorfodol unigol, masnachfreinio.

Byddai wedi'i seilio ar Lywodraeth Leol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ddylunio rhwydweithiau a gwasanaethau bws sy'n bodloni anghenion pobl a chymunedau orau **o fewn y cyllid sydd ar gael.**

***Dyna'r drafferth – a oes unrhyw gyllid ar gael i'w gyflawni?***

**Dweud eich Dweud:**
**Os oes gennych stori yr hoffech ei rhannu neu unrhyw sylwadau ar ein cylchlythyr, cysylltwch â ni:**
**Y Golygydd, Dereck Roberts, Cadeirydd CPC Cymru**
E-bost: **info@npcwales.org**

Drwy'r Post: CPC Cymru
d/o Age Cymru
Llawr Gwaelod, Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Caerdydd, CF24 STD

***Beth am ymuno â Chonfensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, a adwaenir fel CPC Cymru?***

Sefydliad gwirfoddol ydym. Sefydliad ymgyrchu anwleidyddol ydym sy'n ceisio gwella safonau byw a lles holl bensiynwyr Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Mae ein Cyngor Llawn yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn, fel arfer.

Mae ein Swyddogion a'n Haelodau Pwyllgor gwirfoddol etholedig yn cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Mae ein hymgyrchoedd allweddol presennol ar gyfer:

- **Adfer y GIG yng Nghymru**

a datblygu **gwasanaeth Gofal Cymdeithasol cwbl integredig, sydd am ddim pan fydd ei angen**, fel blaenoriaeth gyntaf.

- **Yr Argyfwng Costau Byw.**
- **Pensiynau Gwladwriaeth Teilwng – cadw'r clo triphlyg**
- **Mae 68 yn rhy hwyr – yn erbyn cynyddu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth**
- **Ynni i Bawb – Gwrthodwch Ddewis Gwresogi neu Fwyta**
- **Mae Cartrefi Oer yn Lladd – Inswleiddiwch ein cartrefi NAWR!**
- **Cysylltiadau Digidol i Bawb**

Rydyn ni hefyd yn credu bod rhaid i ddulliau cyfathrebu a gwasanaethau traddodiadol barhau, fel wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy'r post a defnyddio arian parod.

- **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Bysiau a Bil Bysiau Cymru? Mae gwasanaethau bws mewn argyfwng difrifol. Mae llwybrau mewn perygl ledled Cymru.

- **Gofal a Thrwsio Tai** Mae 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru, y mae pob un yn gwasanaethu rhanbarth gwahanol. Rydyn ni eisiau i lawer mwy o addasiadau gael eu gwneud.

**Os ydych yn aelod o sefydliad, gall eich sefydliad ffurfio cysylltiad â CPC Cymru. Cysylltwch â'r canlynol:**

E-bost: **affiliation@npcwales.org**

Neu drwy'r post:
CPC Cymru
d/o Age Cymru
Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Caerdydd
CF24 STD

**Gallwch ymuno â CPC Cymru fel aelod unigol.**

Trwy wneud hynny, gallwch fynychu ein cyfarfodydd, pleidleisio a derbyn ein cylchlythyrau.

**Hoffwn ymuno â CPC Cymru fel aelod unigol**

Anfonwch neges e-bost at affiliation@npcwales.org neu drwy'r post i'r cyfeiriad isod.

Eich Enw Llawn

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif Ffôn Cartref
Rhif Ffôn Symudol

Cyfeiriad e-bost

Talu ffïoedd cyswllt: £10.00 y flwyddyn

I dalu trwy BACS : Taler:
Banc Lloyds, CPC Cymru Cyfrif Rhif 2
Cod Didoli 309995 Rhif Cyfrif 01236708
Os byddwch yn talu trwy BACS, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys cyfeirnod sy'n nodi eich enw.
Neu talwch drwy siec sy'n daladwy i CPC Cymru a'i dychwelyd i:
CPC Cymru, d /o Age Cymru, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 STD

Cefnogir gan

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


Hyrwyddwyd a chyhoeddwyd gan CPC Cymru, argraffwyd gan Age Cymru, i gyd d/o Ground Floor Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 STD

# NEGES Y DDRAIG
# DRAGONSPEECH

***THE NEWSLETTER OF NPC WALES***
***CYLCHLYTHYR CPC CYMRU***

***Rhifyn 10 Hydref Issue 10 Winter 2023/24***
***A Review of 2023 and what's to come in 2024.***

## NPC Returned to Blackpool



The NPC Annual Convention 2023 heard calls for young and older people to work together to ensure that everyone can have a decent quality of life as they age. It also had a session on the role of a Commissioner for Older People.

NPC Wales supported the campaign to get an Older People's Commissioner for older people and ageing in England. It was supported by the NPC, Independent Age, the Centre for Ageing Better, Age UK, and over 70 organisations.

Our Chair Dereck Roberts took part in a Parliamentary lobby with NPC and Independent Age to support the campaign.

NPC President Rosie MacGregor, Older People's Commissioner for Wales Helena Herklots and Rt Hon Lord George Foulkes spoke at the 2022 NPC Convention starting that campaign.



**Older People's Commissioner for Wales (OPCW).**

Helena Herklots the current Commissioner for Wales' term of office ends in 2024. Welsh Government have a process to **appoint the next OPCW** who will serve for a seven-year term of office.
That will take place during January – March 2024.

**NPC Wales will be involved in that process.** Chair Dereck Roberts and Secretary Louisa St Bartholomew-Brown Morgan have been appointed, by Welsh Government, to the **Older People's Interview Panel.** The panel will recommend candidate/s to be appointed as the new OPCW.

They will then be interviewed by a Senedd All Party panel who will recommend an appointee.

**The final decision and formal sign off will be made by the First Minister – Mark Drakeford or his successor.**

**Pensions and Tax**
Yes the NPC Campaign to maintain the State Pension Triple Lock was successful.




From 8th April 2024 the full basic state pension will rise in line with average earnings by £13.30 a week to £169.50. The full new state pension will rise by £17.35 a week to £221.20.

**But the government did not increase the tax thresholds in line with inflation.** Many older people will now pay income tax as their earnings exceed the £12,750 tax threshold.

**The Office of Budget Responsibility said that UK living standards are forecast to be 3½ per cent lower in 2024-25 than pre-pandemic.**

The future of the State Pension and the Age at which you qualify to receive the State Pension remain as major issues and are being used by some to stir up intergenerational conflict.

The Organisation for Economic Co-operation & Development (OECD) (a rich country club) is one of many "think tanks" urging the UK government to reform the 'costly' triple lock to "improve" UK finances.

**Improve for whom we ask?**




***So the NPC Wales will continue to campaign to get a decent State Pension for future generations.***

***The NPC Wales will campaign against any increase in the State Pension Age for future pensioners.***
***68 is too late!***

**The basic state pension should be set at 70% of the living wage (outside London rate) and above the official poverty level. The living wage is currently £10.42 per hour in 2023-24. Based on 70% of that and a 35-hour week that is equivalent to £255 per week, £13,275 per year.** This should be paid to all men and women, regardless of their National Insurance contributions.

**Every year the state pension (basic, second and State Earnings Related Pension Scheme SERPS) should rise in line with the best of earnings, the Consumer Price Index, the Retail Price Index or 2.5%.**

**Towards a National Care and Support Service.**




We have now had two expert reports on how to sort out Health and Care Services here in Wales. In June 2018:
**Paying for Social Care**
An independent report commissioned by the Welsh Government by
Professor Gerald Holtham.

In 2023 we had :The report from another expert panel:
**Towards a National Care and Support Service for Wales Initial Implementation Plan**
NPC Wales have been involved in the process of getting there through our meetings with Welsh Government but also we asked key speakers to come to our Full Council meeting to talk about how much progress has been made.

We asked Mark Turner from Unison who was a member of the expert panel. He reported that the care system is now in crisis. Unfortunately, governments have been ignoring it for some time.

The lack of capacity in care is having an effect on the NHS. The bar to qualify for home care has been raised so high, only those with severe needs can receive it.

Care is most likely to be delivered by the private sector, with different care workers attending at different times of the day, often at inconvenient times. It isn't the workers' fault. In most cases, they work in their own time to afford the dignity and humanity to their clients that the market doesn't recognise.

There was a complete market failure during the pandemic.



The Welsh Government is committed to addressing those issues – ministers are promoting a national care service, publicly delivered and free at the point of need. It is needed, but very difficult to achieve with delivery from the private sector because the economics of social care are hopelessly tangled with the economics of capital value.

Welsh Government recently released their 2024 Budget and it is dominated by the needs of the Welsh NHS.


Is care going to get "kicked down the road again"?

***NPC Wales will be campaigning to keep care, free at the point of need on the top of the agenda!***

2024 is the 3rd anniversary of the start of our Connections for All Campaign.

The pace of change is accelerating especially now that Artificial Intelligence (AI) is starting to become commonly used . For older people that means that access to services, news, travel information, you name it is becoming more dependent on being able to use the internet, and having a smartphone or another means of using broadband.

The NPC Digital Working party is chaired by Jenny Sims, a member of the NPC Wales, Committee. They publish a newsletter which you can access on line via: **npcuk connections-for-all-8**




The NPC Digital Working Party submitted evidence along with other Charities and Organisations to the Westminster Government on the issue of digital exclusion.

**In April 2023 The Communications regulator (Ofcom) confirmed that almost one in three people had difficulty affording internet services.**

The Westminster Government is hoping to persuade internet providers to offer so called “social tariffs” to reduce costs but even those are too expensive and rely on the providers willingness to offer them.

**Access to Broadband as a Human Right.**
In late 2021 The Older People’s Commissioner for Wales issued statutory guidance to Health Boards and Local Authorities in Wales: **Ensuring access to information and services in a digital age.** NPC Wales were involved in developing that guidance.

In reviewing progress in 2002 and 2023 the Commissioner was very clear: **The right to access information is a key element of the broader right to freedom of expression and is protected across several human rights instruments, including the UN International Covenant on Civil and Political Rights, the European Convention on Human Rights, and the Human Rights Act 1998.**

The Guidance is that any move to digital services must be accompanied by measures to **ensure that the human rights of older people are protected** and that they can get access information and the services they need by offline channels, or should they

choose, are supported to gain skills to be able to get online. That is at the core of our NPC Wales Connections for All Campaign. **A lot of progress has been made in Wales with access and support now widely available online via: Welsh government how-help-someone-you-know-get-online**

The UN has called for universal access to the internet by 2030. There is growing international support for such an approach.

**NPC supports calls for universal internet access to be recognised as a human right.**

Because of the cost-of-living crisis, around 1 million people have cancelled their broadband subscriptions this year. So NPC is going to start a new campaign**:**

**Free internet access package for pensioners.**

- **NPC Wales will be supporting that campaign so keep an eye out for future events and news.**

## Access to Cash

We also face the withdrawal of banking services from communities. Cash remains particularly important for consumers with vulnerable characteristics and small businesses.

NPC Wales had a very good meeting with Hannah Blythyn MS the Deputy Minister for Social Partnership whose brief includes Digital Exclusion and access to cash. She followed up on issues raised about access to cash with **LINK the cashpoint supplier.**

LINK is a not-for-profit public interest company. They maintain the **free-to-use ATM network and will guarantee that there is free access to cash through either a free-to-use ATM or Post Office within 1km of any high street with at least five relevant retailers who accept cash.** NPC Wales will follow that up on the response from LINK.

**The Financial Conduct Authority (FCA)** are also proposing a new regulatory regime, which would require banks and building societies to assess and fill gaps, in cash access provision that significantly impacts consumers and businesses.

**The FCA need comments by 8 February 2024.**
**Online: FCA CP23/29 response form**

Or in writing to:
Retail Banking
Financial Conduct Authority
12 Endeavour Square London
E20 1JN
Telephone:
020 7066 1000
E-mail:**cp23-29@fca.org.uk**

## Scams and fraud

Worried about scams? Age Cymru can help you spot and avoid the latest scams online via: **Scams and Fraud Age Cymru**

**Who can I talk to if I've been scammed?**

ActionFraud
National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre
0300 123 2040

**The police**: If you feel threatened or if you're in immediate danger, call 999. If it's not an emergency, call 101.

**Your bank:** If you've noticed any unusual activity with your bank account, call the centralised number 159 or the phone number on the back of your bank card.

## TRANSPORT




As we all know bus services have been slashed in Wales (and England). Many of our members have raised concerns about services where they live.

**In Wales we still await the Bus Bill. Will the new Bus Bill solve the problem?**

The Welsh Senedd have just published (December 2023) a Senedd Research Paper: **Bus services on life support: can franchising deliver for Wales?**

The idea for the new Bus Bill was to propose:

1) Bus franchising throughout Wales.
2) Permitting local authorities to establish new municipal bus companies.
3) Relaxing restrictions on existing municipal bus companies; and improve passenger information and ticketing.
4) Proposing to give the public sector control through a single mandatory scheme, franchising.

It would be based on Local Government, Transport for Wales and the Welsh Government working together to design bus networks and services which best meet people's and communities' needs **within the funding available.**

***Therein lies the rub – is there any funding available to make it work we ask?***

**NPC National Newsletter**
**npcuk.org/post/better-living**

**Your Shout:**
**If you have a story you would like to share or have any comments on our newsletter, please contact us:**
**The Editor Dereck Roberts Chair NPC Wales**
E mail **info@npcwales.org**

By Post: NPC Wales
c/o Age Cymru
Ground Floor, Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Cardiff, CF24 STD

***Why not Join National Pensioners Convention Wales/ Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru known as NPC Wales?***

We are a voluntary organisation. We are a non-party political campaigning organisation that seeks to improve the living standards and welfare of all pensioners and future pensioners in Wales.

Our Full Council meets, normally, 4 times a year.

Our elected volunteer Officers and Committee Members meet regularly with the Welsh Government and the Older People's Commissioner for Wales.

Our current key campaigns are for:

- **The recovery of the NHS in Wales**

and the development of a fully **integrated Social Care service, free at the point of need**, as its first priority.

- **The Cost-of-Living Crisis.**
- **Decent State Pensions - maintain the triple lock**
- **68 is too late – against increasing the State Pension Age**
- **Energy For All - Say NO to Heat or Eat**
- **Cold Homes Kill - Insulate our homes NOW!**
- **Digital Connections for All**

We also believe that traditional forms of communication and services such as face to face, over the telephone, via post and using cash must remain in place.

- **Public Transport**

Buses and the Welsh Bus Bill ? Bus services are in deep crisis. Routes are at-risk all over Wales.

- **Housing Care and Repair** There are 13 Care & Repair Agencies in Wales, each covering a different region. We want far more adaptations to be carried out.

**If you are a member of an organisation your organisation can affiliate to NPC Wales please contact:**

E-Mail **affiliation@npcwales.org**

Or by post to:
NPC Wales
c/o Age Cymru
Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Cardiff
CF24 STD

**You can join NPC Wales as an individual member.**

If you do you can attend our meetings, vote and receive our newsletters.

**I wish to join NPC Wales as an individual member**
E-Mail **affiliation@npcwales.org** **or send by post** to the address below.

Your Full Name

Address

Post Code

Home Telephone
Mobile Number

E mail address

Payment of affiliation fees: £10:00 per year

To Pay by BACS : Please pay to:
Lloyds Bank, NPC Wales No.2 Account
Sort Code 309995 Account Number 01236708
If paying via BACS please ensure that you include a reference identifying. your name.
Or pay by cheque payable to NPC Wales and return to:
NPC Wales, c /o Age Cymru, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Cardiff CF24 STD

Supported by

Promoted and Published by NPC Wales, printed by Age Cymru, all c/o Ground Floor Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Cardiff, CF24 STD